# YN FYR:
# TAI YN GYNTAF MEWN TREFI BYCHAN

RHWYDWAITH TAI'N GYNTAF CYMRU

**Er bod Tai yn Gyntaf yn dilyn set benodol o egwyddorion clir, mae realiti'r ffordd y mae darparu cymorth yn gweithio o ddydd i ddydd yn dibynnu ar y cyd-destun. Datblygwyd y canllaw hwn gan weithwyr cymorth sy'n darparu Tai yn Gyntaf mewn trefi bychan. Maent wedi cynghori y dylai darparwyr cymorth a rhanddeiliaid eraill fod yn ymwybodol o'r materion isod os ydynt yn gweithio mewn amgylcheddau tebyg:**

## YMARFER DA

Mae sawl elfen sydd wrth galon prosiectau llwyddiannus Tai yn Gyntaf hyd yn oed yn fwy pwysig i'w cael yn iawn mewn trefi bychan:

- Adeiladu perthynas â phobl yn y modd cywir.
- Sicrhau bod cleientiaid yn gwybod beth mae Tai yn Gyntaf yn ei olygu, a bod eu disgwyliadau'n cael eu rheoli drwy sgyrsiau agored, gonest.
- Sicrhau bod atgyfeiriadau'n dod gyda dealltwriaeth fanwl o hanes y cleient.
- Gweithio i sicrhau nad yw cleientiaid yn teimlo eu bod yn anweledig i'r gwasanaethau, ac ar yr un pryd nad ydynt yn teimlo'n rhy amlwg i bobl o'u cwmpas.

## PROBLEMAU POSIBL MEWN TREFI BYCHAN

Mae yna broblemau penodol a allai effeithio ar gleientiaid a phrosiectau mewn trefi bychan lle mae'r ysbryd cymunedol yn gryf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cymunedau clòs:** Un o gryfderau cymunedau clòs yw bod unigolion a'u hanes yn gyfarwydd, gan arwain yn aml at gymorth o'r gymuned. Fodd bynnag, gall hyn weithiau gyfrannu at broblemau pan yn ceisio dod o hyd i lety addas o fewn ardal benodol. Tra bod Tai yn Gyntaf yn dibynnu ar ddewis y cleientiaid, dylent ddeall y gallent fod yn byw yng nghanol pobl sy'n eu hadnabod. Mae yna hefyd risg y bydd pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn dda yn dod i wybod yn fuan iawn am eu hanes ar ôl iddynt symud i fyw mewn rhyw stryd benodol. Gall hyn gyfrannu at deimlad o beidio â chael 'ail gyfle'.
- **Cylchoedd cymdeithasol gwydn:** Mae gan gymunedau sydd wedi tyfu i fyny gyda'i gilydd hanes hir o gylchoedd cymdeithasol gwydn a chefnogol. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn rywbeth positif; fodd bynnag, gallai cleientiaid eu cael eu hunain yn poeni am grwpiau o gyfoedion neu gysylltiadau oedd ganddynt yn y dref yn y gorffennol. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at fod yn ymwybodol o'r ffaith eu bod yn cael eu tynnu i mewn i gylchoedd roeddent yn rhan ohonynt ers talwm. Oherwydd bod gan brosiectau lai o ofod i gael eu gwasgaru, gall problemau fel hyn gael eu chwyddo. Mae'n holl bwysig cael trafodaethau gonest ynghylch y sefyllfa, yn ogystal ag am strategaethau sut i ymdopi.
- **Cyfrinachedd:** Pan fo cymuned eisoes yn gwybod llawer am unigolion gall hyn greu problemau ynghylch cyfrinachedd, gan effeithio ar gyflwr meddwl cleient. Efallai y bydd cymdogion yn gwybod bod cleient yn rhan o brosiect Tai yn Gyntaf, neu o wasanaeth yn gysylltiedig â digartrefedd, er nad yw'r prosiect ei hun wedi rhannu unrhyw wybodaeth. Unwaith eto, mae'n holl bwysig adeiladu elfen o brynu-i-mewn ac ymwybyddiaeth o'r hyn mae Tai yn Gyntaf yn ei olygu.

- **Mae cymunedau wedi datblygu eu hadnoddau eu hunain:** Oherwydd natur glòs y gymuned mewn trefi bychan, yn aml iawn mae yna grwpiau ac unigolion sy'n weithgar ac yn effeithiol yn y gymuned. Dylai prosiectau Tai yn Gyntaf weithio drwy a gyda'r grwpiau hyn, yn hytrach na gosod rheolau oddi uchod.
- **Unigolion y gellir eu hadnabod:** Oherwydd bod y boblogaeth yn llai, gallai unrhyw beth a gyhoeddir ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn y wasg leol arwain at unigolion adnabyddus yn cael eu trafod ar y cyfryngau cymdeithasol. Gallai hyn arwain at gynyddu canfyddiad negyddol o'r cleientiaid.
- **Sefydliadau sydd wedi gwreiddio:** Yn aml, mae sefydliadau fel yr heddlu, landlordiaid a gweithwyr proffesiynol ym maes tai yn gwreiddio i mewn i'w cymunedau. Mae hyn yn beth positif, gan ei fod yn golygu eu bod yn deall y problemau sy'n wynebu'r cymunedau yma. Fodd bynnag, gallai arwain at atgyfnerthu tybiaethau negyddol o gleient. Mae hyn oll yn cyfrannu at wneud i'r cleientiaid deimlo na allant fyth newid na dianc oddi wrth ganfyddiad o'r fath. Fel bob amser, y gorau y ddealltwriaeth o Tai yn Gyntaf, y gorau fydd y prynu-i-mewn, a'r lleiaf tebygol y bydd y problemau hyn yn codi.
- **Cymuned gefnogol:** Yn aml, oherwydd bod pobl mewn trefi bychan yn adnabod ei gilydd, mae ganddynt berthynas agos, gefnogol â'i gilydd. Fodd bynnag, mae yna bosibilrwydd y gallai rhywun a leolwyd o fewn y cymunedau hyn, heb unrhyw gysylltiad â phobl o fewn y gymuned honno, deimlo'n fwy ynysig.
- **Partneriaid allanol sydd dan lawer o bwysau:** Mewn trefi bychan ac ardaloedd gwledig, efallai bod gwasanaethau iechyd a phartneriaid eraill sy'n hanfodol i Tai yn Gyntaf fod dan lawer o bwysau, ac felly'n llai tebygol o flaenoriaethu cleientiaid Tai yn Gyntaf sydd ag angen cael eu hatgyfeirio ar frys. Gall cleientiaid hefyd deimlo eu bod yn 'anweledig' i'r gwasanaethau, mewn gwrthdroad rhyfedd o'r broblem o deimlo'n rhy 'weledig' i gyfoedion, y gymuned a sefydliadau megis yr heddlu.
- **Llai o dulliau trafnidiaeth:** Gall cleientiaid ei chael yn anodd cyrraedd apwyntiadau oherwydd y prinder cymharol o drafnidiaeth gyhoeddus, neu ddulliau teithio sydd ar gael yn llai aml. Tra bod staff mewn prosiectau Tai yn Gyntaf yn aml yn cludo cleientiaid i apwyntiadau, neu'n teithio i gwrdd â chleientiaid mewn man lle maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus, dylai darparwyr cymorth gymryd i ystyriaeth y potensial am ragor o alw am hyn mewn trefi bychan.
- **Digartrefedd fel problem, nid pobl â phroblemau:** Mae'r mater hwn yn berthnasol i bob cymuned, p'un ai mewn dinasoedd mawr, trefi bychan neu ardaloedd gwledig: gall fod perygl bod y gymuned yn gweld digartrefedd fel problem sy'n effeithio ar y dref, yn hytrach na phroblem sy'n effeithio ar bobl go iawn sydd ag angen cymorth.
- **Yr heddlu'n cydbwyso cymunedau cydlynol ac anghenion y darparwyr cymorth:** Gall aelodau o'r heddlu lleol ei chael yn anodd cael cydbwysedd effeithiol rhwng anghenion a phryderon gymuned glòs, a'r pethau maent yn eu clywed gan ddarparwyr cymorth a rhanddeiliaid eraill o fewn Tai yn Gyntaf. Mae'n gwbl hanfodol sicrhau bod cymorth dwys ar gael am 24 awr y dydd i leddfu rhywfaint ar bryderon yr heddlu.

## RHWYDWAITH TAI YN GYNTAF CYMRU

**Wedi ei gydlynu gan Cymorth Cymru, mae Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru yn grŵp o unigolion a sefydliadau a chanddynt ddiddordeb mewn datblygu Tai yn Gyntaf a'i weithredu ym mhob rhan o Gymru.** Gyda chynrychiolaeth o'r trydydd sector, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, byrddau iechyd a mwy, ei nod yw sicrhau cysondeb, ond hefyd i rannu ymarfer gorau a dysgu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/housing-first/